# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**2019 dccc 3**

## RHAN 5

YMCHWILIO I GWYNION SY'N YMWNEUD Â PHERSONAU ERAILL: GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL

*Ymchwilio i gwynion*

### 47 Pwy sy'n cael cwyno

(1) Y personau sydd â hawl i gwyno i'r Ombwdsmon yw—

(a) aelod o'r cyhoedd (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "y person a dramgwyddwyd") sy'n honni neu sydd wedi honni ei fod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i fater y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo,

(b) person a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y person a dramgwyddwyd i weithredu ar ran y person hwnnw, neu

(c) os nad yw'r person a dramgwyddwyd yn gallu awdurdodi'r cyfryw berson (er enghraifft, oherwydd bod y person a dramgwyddwyd wedi marw), person sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn briodol i weithredu ar ran y person a dramgwyddwyd.

(2) Nid yw "aelod o'r cyhoedd" yn cynnwys person sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel—

(a) darparwr cartref gofal,

(b) darparwr gofal cartref,

(c) darparwr gofal lliniarol annibynnol, neu

(d) awdurdod rhestredig.

(3) Mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu ar unrhyw gwestiwn ynghylch a oes gan berson hawl i wneud cwyn o dan yr adran hon.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 77(1)**

**I2** A. 47 mewn grym ar 23.7.2019 gan O.S. 2019/1096, **rhl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 47 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Medi 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 2 para. 6
- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 12 para. 7(2)

Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(a) (Welsh language text)
- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(b) (English language text)